# Cronfeydd Sir y Fflint

**Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol**

Sefydliad Cymunedol Cymru

## Cronfa Gwaddol Cymunedol Sir y Fflint

Mae Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint yn cefnogi:
- Prosiectau sy'n darparu datblygiad addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc o oedran ysgol
- Prosiectau sy'n darparu datblygiad addysgol i blant yn y blynyddoedd cynnar
- Prosiectau mewn ysgolion sy'n annog byw yn iach

## Grantiau ar gael

Gall eglwysi a sefydliadau nid er elw sy'n gweithio gyda thrigolion ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint ymgeisio am grantiau o hyd at £1000

## Pwy all wneud cais?

Grwpiau a sefydliadau yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint sy'n rhedeg prosiectau sydd y tu allan i ddarpariaeth statudol. (E.e. clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, prosiectau garddio ac ati).

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos sut yn union y byddant yn bodloni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi cael cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen.




## Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:
- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein.
- Llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Cronfa Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint

Cronfa Ymddiriedolaeth Elusennol yw Cronfa Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint sy'n cael ei gweinyddu gan Sefydliad Cymunedol Cymru. Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn cael ei rheoli gan Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru 1914.
Mae'r gronfa'n cefnogi:

- Prosiectau sy'n cyfrannu at adnewyddu a chynnal a chadw eglwysi, capeli a neuaddau pentref yn y sir.
- Prosiectau sy'n gweithio i ymladd anfantais er budd trigolion Sir y Fflint.
- Prosiect sy'n darparu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden ar gyfer trigolion Sir y Fflint.

## Grantiau ar gael

Gall eglwysi a sefydliadau wneud cais am grantiau hyd at £1,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

## Pwy all wneud cais?

Eglwysi a sefydliadau dielw sy'n gweithio gyda thrigolion ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos sut yn union y byddant yn bodloni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi cael cymorth gan y Gronfa hon o'r blaen.




## Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan.

Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein.
- Llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

## Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried amgrant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael eiystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.